

# Seren Wen ar Gefndir Gwyn? Anhwylder a chyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth gyhoeddus Cymru

Patrick Carlin

*Prifysgol Caerdydd*

Cyflwynwyd: 17 Mehefin 2024; Derbyniwyd: 13 Rhagfyr 2024

**Crynodeb:** Mae mwy o gyfieithu nag erioed o'r blaen yn digwydd yng ngweinyddiaethau cyhoeddus Cymru yn dilyn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Gan ddefnyddio gwaith y theorïwr diwylliannol o Gatalwnia, Josep-Anton Fernàndez, dadansodda'r erthygl hon y defnydd o gyfieithu Saesneg-Cymraeg yng nghyd-destun normaleiddio ieithyddol, gan ofyn a oes perthynas bellach rhwng gorddibynnu ar gyfieithu a'r syniad o anhwylder yn y gyhoeddfa Gymraeg. Gan ystyried cymaryddion rhyngwladol a chan ganolbwyntio ar Wlad y Basg yn fwy penodol, â'r erthygl rhagddi i awgrymu dulliau polisi cyflenwol a fyddai'n darparu gwasanaethau dwyieithog ar sail fwy dinesydd-ganolog, cydlynus a chyfannol. Awgrymir y byddai datblygiad polisi o'r fath o gymorth i ddinasyddion Cymru fwynhau agweddau neilltuol a chyfanfydol ar eu bywydau.

**Allweddeiriau:** cyfieithu, normaleiddio, anhwylder, Josep-Anton Fernàndez, neilltuol, cyfanfydol.

## Seren Wen ar Gefndir Gwyn? Malaise and English-Welsh translation in Welsh public administration

**Summary:** More translation than ever before is being carried out by public administrations in Wales following the Welsh Language (Wales) Measure 2011. Applying the work of the Catalan cultural theorist, Josep-Anton Fernàndez, this article analyses the use of English-Welsh translations in the context of linguistic normalisation and asks whether there is a relationship between an overdependence on translation and the idea of malaise in the Welsh language public sphere. The article considers international comparators, focusing on the Basque Country in particular, and proceeds to suggest possible complementary policy approaches that would offer more citizen-centred, coherent and holistic bilingual services. It is suggested that such a policy development would assist in the enjoyment by the citizens of Wales of both particular and universal aspects of their lives.

**Key words:** translation, normalisation, malaise, Josep-Anton Fernàndez, particular, universal.

## Cyflwyniad<sup>1</sup>

Yn 2000, mewn pennod yn y gyfrol olygedig ‘*Y Sêr yn eu Graddau*’, trafododd y nofelydd a’r academydd llenyddol Angharad Price ddoniau llenyddol yr awdur Robin Llywelyn yng nghyd-destun ei allu i greu bydolygon cyfarwydd ac anghyfarwydd fel ei gilydd ym meddwl y darlennydd Cymraeg. Aeth y bennod yn ei blaen i ymdrin â’r anghytuno a fudlogai yn y gyhoeddfa<sup>2</sup> Gymraeg a Saesneg ar hyd yr ugeinfed ganrif ynghylch y ffordd orau o sicrhau ffyniant llenyddiaeth Gymraeg, gan bendilio rhwng y ‘deuoliaethau digon ansad’ sydd ar y naill law â’u bryd ar boblogeiddio’r defnydd o’r iaith a’r canfyddiad ar y llall bod yn rhaid i lenyddiaeth fod yn heriol er mwyn gallu saerño o’r newydd ‘hunaniaeth Gymraeg gyfoes’ ar gyfer y cenedlaethau a ddêl.

Wrth gyfeirio at farn nifer o adolygwyr a deimlai mai beirniaid academiaidd oedd yn gyfrifol am roi gormod o glod i nofel ‘anodd’ Llywelyn, *Seren Wen ar Gefndir Gwyn*, enillydd Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol ym 1992, defnyddia Price y gair ‘anesmwythyd’ nifer o weithiau i grisialu pryder yr adolygwyr bod ‘sylweddoliad diymwared na all awdur Cymraeg fforddio bod yn rhy anodd, yn rhy anghyfarwydd i gynulleidfa sydd eisoes yn gyfyngedig o ran nifer’. Er mwyn ategu’r pryder hwn, cyffelybodd anesmwythyd yr adolygwyr â’r ‘ymdeimlad *sigledig*’ o fod yn awdur Cymraeg cyfoes, gan ddyfynnu barn y nofelydd Wiliam Owen Roberts fel a ganlyn, ‘writing in Welsh is very much a classic twentieth-century experience. You are writing on the edge of *catastrophe*’ (Price 2000: 194–6).<sup>3</sup>

Yn yr un ffordd, mae ymdriniaeth Menna Machreth Jones o’r gyfrol o farddoniaeth gan Gwyneth Lewis, *Llofrudd Iaith* (1999), a ymchwilia i’r ‘berthynas rhwng iaith a chorff a rhwng y Gymraeg a’i siaradwyr’ (Jones 2012: t. 172), yn awgrymu bod rhyw lun ar aflonyddwch dirfodol yn perthyn i’r canfyddiad o golli’r Gymraeg a/neu’r broses o’i thrawsnewid o fod yn ‘iaith ddilychwin a pharchus’ i fod yn iaith a all ‘ymddwyn yn anfoesol hyd yn oed trwy gyfrwng y Gymraeg’. Noda Jones i Gwyneth Lewis gredu bod ‘iaith yn rhan annatod o’r corff dynol’ a bod ‘colli iaith yn achosi *poen corfforol enbyd*’ yn sgil y berthynas rhwng ‘corff ac iaith a hunaniaeth gymunedol neu genedlaethol’. Eto, wrth drafod dadansoddiad y bardd a’r academydd Nerys Williams o waith Lewis, cyfeiria Jones at ‘[b]ynciau *tensiynus*, megis pwnc yr iaith’ gan ddyfynnu Williams fel a ganlyn, ‘Humour ... liberates *anxiety*, releases pleasure and importantly in Lewis’s poetry allows her to celebrate the multiple identities that different models exert’ (2012: 200–3). Cyfeiria Nerys Williams hithau at sylwadau Gwyneth Lewis ynghylch yr egni creadigol a ddaw yn sgil myfyrio ar y berthynas rhwng canfyddiadau o dranc iaith a difodiant ymwybyddiaeth unigol a thorfol:

Being part of a *dying culture* is, paradoxically, of great value to a poet, if you’re interested in ultimate questions about language and the nature of

<sup>1</sup> Hoffwn ddiolch i Dr Richard Crowe am ddarllen a chynnig sylwadau ar fersiwn gynharach o’r erthygl hon, yn ogystal â’r ddau arfarnwr.

<sup>2</sup> Yn dilyn bathu’r term i gyflew ‘public sphere’ yn Gymraeg (yn Williams 2016: t. 2).

<sup>3</sup> Yr awdur biau’r italeiddio yn y dyfyniadau uchod.

reality ... The challenge in all cases is to sing as true as possible a song out into the dark before that *final extinction* of shimmering consciousness, before the brightness falls from the air. (yn Williams, 2003: 27–8)<sup>4</sup>

Nid oes a wnelo'r erthygl hon â llenyddiaeth Gymraeg ond yn hytrach â'r enghreifftiau o 'anesmwythyd' y cyfeirir atynt uchod ac yr awgrymaf ei fod yn llech-hela seice'r gyhoeddfa Gymraeg yn gyffredinol. Y term a ddefnyddir yn yr erthygl hon i gwmpasu'r anesmwythyd hwnnw yw 'anhwylder' ac fe'i cyplysir â phrif ddiben yr erthygl, sef problemu'r defnydd o gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Yn hyn o beth, cyfeiria cyn-bennaeth Uned Gyfieithu Prifysgol Bangor, Sylvia Prys Jones, at '*angst*' yng nghyd-destun cyfieithu Saesneg-Cymraeg fel a ganlyn: '[g]welir angst Cymry Cymraeg ynghylch cyfieithu yn y mynych gollfarnu ar gyfieithu Saesneg-Cymraeg. Clywir sôn o hyd am 'gyfieithu slafaidd, cyfieitheg, Cymraeg Seisnigaidd, cyfieithu clogyrnaidd' (Jones 2015: 100).

Yn sgil nifer o ddeddfau iaith ar hyd yr ugeinfed ganrif ac yn benodol yn sgil cyfundrefn Safonau'r Gymraeg, sef y gofynion rheoleiddiol ynghlwm wrth Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mac Giolla Chríost 2016, Lewis a Royles 2022), mae cyfieithu bellach yn rhan gwbl greiddiol o'r ymdrechion i greu gweinyddiaeth gyhoeddus gynyddol ddwyieithog, a thrwy hynny gyfrannu at y broses o hwyluso gallu'r dinesydd i gyfathrebu â sawl haen lywodraethol o'r wladwriaeth yn Gymraeg, a hynny ar sawl plattform a chyfrwng.<sup>5</sup>

Yn dilyn y cyflwyniad hwn, rhennir yr erthygl yn bedair rhan. Yn y rhan gyntaf, eir ati i olrhain yn fyr ddatblygiad ideolegol a disgyrsiol dwy broses benodol, sef 'normaleiddio' yng nghyd-destun ieithoedd lleiafrifedig neu anwladwriaethol, a'r 'anhwylder' cynyddol yr awgrymir iddo ddeillio o'r normaleiddio hwn, gan gyfeirio'n benodol at waith y theorïwr diwylliannol o Gatalwnia Josep-Anton Fernández. Saernia Fernández ddadl sy'n problemu'r cyfreithloni sefydliadol a gafwyd yn sgil y broses o 'normaleiddio' diwylliannol ac ieithyddol yng Nghatalwnia oddi ar ddechrau'r 1980au. Daw i'r casgliad fod y math hwn o normaleiddio wedi arwain at ryw lun ar argyfwng, sef anhwylder sy'n amlygu ei hun mewn sawl agwedd ar fywyd diwylliannol Catalwnia. Er gwaethaf y gwahaniaethau amlwg rhwng sefyllfa ddemograffig ac ieithyddol a chyfundrefn lywodraethu'r ddwy wlad, honnir yma fod gwerth dadansoddol ynghlwm wrth ymdrin â normaleiddio yng nghyd-destun anhwylder, a hynny o'i gymhwyso i Gymru.

Awgrymaf fod y normaleiddio ieithyddol yng Nghymru sydd ynghlwm wrth y defnydd cynyddol o gyfieithu ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus yn arwain at anhwylder yn y gyhoeddfa Gymraeg. Enghreifftiau o gyfieithu trwsogl ac anaddas yw'r hyn a eilw'r theorïwr cyfieithu Marianne Lederer yn gyfieithu 'cyfatebol' yn hytrach na chyfieithu 'cyfwerth', gan nodi 'the poor quality of a translation by correspondence is immediately apparent' (2014:

<sup>4</sup> Yr awdur biau'r italeiddio yn y dyfyniadau uchod.

<sup>5</sup> Gweler Tegau Andrews (2015) am grynoded o'r cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol ynghlwm wrth dwf y diwydiant cyfieithu yn y Gymru gyfoes a Yuhong Peng, Huihui Huang a Defeng Li (2024) am oblygiadau technolegau cyfieithu yn oes deallusrwydd artifisial.

45)<sup>6</sup> a bydd hyn, yn ôl pob tebyg, yn peri anhawster i'r dinesydd Cymraeg ei iaith barhau i ddarllen yn yr iaith honno. Gan ddilyn Fernández, dadleuaf fod *cyfieithu* yn hytrach na *chynnwl* gweinyddiaethau gweithredol ddwyieithog yng Nghymru yn dechrau ymdebygu i bentref Potemkin, gan lesteirio'r dinesydd rhag cyfranogi o fydolwg cyfanfydol cymuned wleidyddol hyderus drwy gyfrwng seiliau ac arferion sy'n ddiwylliannol benodol a neilltuol. O dan amgylchiadau o'r fath, câi pobl a chymunedau fwynhau'r hyn sy'n benodol am eu diwylliant tra eu bod *ar yr un pryd* yn cyplysu'r neilltuolrwydd hwnnw â'r clymau cyffredin hynny sy'n perthyn – neu y tybir iddynt berthyn – i'r ddynolryw drwyddi draw.

Mae'r ail ran yn rhoi crynodeb byr o hanes ac arfer cyfieithu yng Nghymru yn gyffredinol. Gwneir hyn er mwyn trafod hyd a lled cysyniad 'metatypy', sef term cymharol newydd sydd bellach yn destun dadlau – yn bennaf hyd yn hyn – o fewn disgyblaeth 'cydgyffyrddiad ieithyddol' (*language contact*). Fe'i disgrifir yn 'extreme structural borrowing which may take place in long-term bilingualism' (Listewnik 2018: 89), ac yn benodol felly yn achos y Gymraeg, cafwyd bod 'evidence that in view of the bilingualism of speakers the English influence on Welsh is becoming ever more prominent not only in the field of lexicon, but also morphology and structure' er y cydnabyddir, serch hynny, fod 'disagreement as to how far the contact-induced changes in contemporary Welsh reach' (Listewnik 2018: t. 105). Awgrymaf fod y ffenomen wedi treiddio'n anorfod i faes cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg i raddau helaeth a bod hyn yn debygol o gynyddu'r ymdeimlad o 'anhwylder' yn y Gymru Gymraeg yn bennaf. Yn ogystal, dadleuaf fod gan hyn oblygiadau nid ansylweddol i'r ffyrdd yr ydym yn cysyniadoli perthyn i gyhoeddffa Cymru drwy gyfrwng yr iaith honno.

Ceir sylwebyddion nad ydynt hwyrach yn ystyried hyn yn broblematig. Yn eu pennod yn yr e-gyfrol *Cyflwyniad i ieithyddiaeth*, er enghraifft, deil Laura Arman a Sarah Cooper mai un o egwyddorion sylfaenol astudiaethau ieithyddol yw peidio â 'labelu defnydd penodol o iaith yn "gywir" neu'n "anghywir" a bod "rhai"' – ni chânt eu henwi gan yr awduron – nad ydynt yn 'hoff o strwythurau "newydd" neu rai sy'n anghyfarwydd iddynt fel rhan o'u haddysg ffurfiol'. Arweinia hyn, fe ymddengys, at '[g]lyfleu agwedd geidwadol tuag at iaith' (Arman a Cooper 2020: t. 19). Yn sgil disgrifiadaeth (*descriptivism*) o'r fath, a ydym mewn perygl felly o ddadwleidyddoli'r drafodaeth ynghylch y berthynas rhwng y Gymraeg a'i defnydd yn gymdeithasol, ac os dyna yw bydolwg 'astudiaethau ieithyddol', oni ellid honni bod safbwynt o'r fath yr un mor geidwadol<sup>7</sup> yn ddisgyblaethol ag 'agwedd y cyfieithydd' yr honnir ei bod yn un 'geidwadol' wrth arddel "'safonau" iaith honedig' (2020: t. 19)?

Yn y drydedd ran, gofynnaf a oes mecanweithiau polisi eraill, er enghraifft uwchsgilio ieithyddol yn y gweinyddiaethau cyhoeddus, a allai ysgafnhau'r baich a roddir ar y defnydd

<sup>6</sup> I'r perwyl hwn, gweler hefyd Ben Screen yn ei lyfr *Sylfeini Cyfieithu Testun* (2021: t. 42) yn ogystal â'r sylw canlynol gan Eleri James, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, 'Mae'r Comisiynydd yn derbyn cwynion cyson gan y cyhoedd am ansawdd 'cyfieithiadau' – yn wallau teipio, camgymeriadau sillafu neu ramadeg neu'n *ddefnydd amhriodol o arddull neu gywair*' (James 2022: t. 5). Yr awdur biau'r italeiddio.

<sup>7</sup> Yn hytrach na cheidwadaeth, hwyrach y seilir safbwynt Arman a Cooper ar y defnydd disgyrsiol o'r gair 'ceidwadol' uchod ar adwaith (reaction), sef 'a response to the specific action that establishes the principle that order should be established only on enlightened principles'. (Alexander 2020: 3)

o gyfieithu? Eir ati i gyferbynnu'r gyfundrefn uchod â threfn proffiliau a chwotâu iaith Gwlad y Basg, system wleidyddol sydd yn lled debyg yn ieithyddol ac yn ddemograffig i Gymru. Gyda'r nod o 'warantu hawliau ieithyddol y sawl a gyfathreba â'r gweinyddiaethau datganoledig a'r cynghorau rhanbarthol a threfol'<sup>8</sup> yng nghymuned hunanlywodraethol Gwlad y Basg, rhoddir cyfundrefn y proffiliau iaith ar waith gan ddefnyddio 'mynegrif bodloni gorfodol',<sup>9</sup> sef fformwla ystadegol sy'n ymdrin â'r wybodaeth o'r Fasgeg ar y lefel lywodraethol berthnasol (Urrutia Libarona, 2019: 226–7). Yn 2021, datganodd Comisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts, fel a ganlyn, '[h]yd nes y gwelwn chwyldro llwyr yn ein polisïau addysgol a chynllunio'r gweithlu, mae hi'n anorfod y byddwn ni'n gwbl ddibynnol ar gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd i gefnogi sefydliadau yn eu hymdrechion i gydymffurfio â'r dyletswyddau iaith statudol.' (Roberts, 2021: iv). Yn y casgliad, adolygaf sefyllfa bresennol y defnydd o brosesau cyfieithu fel offeryn polisi 'o dan y radar', a gofynnaf, o ystyried yr anawsterau dybryd a wyneba byd cyfieithu sydd bellach yn ddiwydiant dinesydd-ganolog, a yw'n bryd lleihau'r baich ar y diwydiant hwnnw drwy ymgorffori offerynnau polisi iaith cyflenwol a fyddai'n grymuso dinasyddion mewn ffyrdd mwy democrataidd a *thyloyw*, megis y gyfundrefn a geir yng Ngwlad y Basg sy'n uwchsgilio ac yn graddol ddwyieithogi'r gweithlu? Trwy wneud hyn, hwyrach y gellid – ymhen amser – effeithio ar gynnwys anghydryw yr 'anhwylder' ynghylch dyfodol y Gymraeg, gan gyfrannu at ffyrdd neilltuol o ymarweddu'n ddinasyddion sy'n meddu ar agweddau neilltuol a chyfanfydol ar ein bywydau, sef 'problem y mae'n rhaid i bob lleiafrif ymgodymu â hi' (Fernández 2008: t. 365).<sup>10</sup>

## Normaleiddio anhwylder?

Yn yr erthygl hon, rhoddir pwyslais arbennig ar rym theori er mwyn canfod, dirnad a dadlau ynghylch y posibiladau o'n blaenau. Yn yr un ffordd ag yr haera'r theorïwr cyfieithu Michael Cronin yn ei lyfr '*Translation and Globalization*' na ddylid ystyried theori'n 'esoteric luxury indulged in by the mandarins of major languages but as a crucial means to understanding the position of minority-language speakers in relationships of language and power' (Cronin 2003: 146), felly hefyd theoreiddio gwleidyddol. Mewn cyfrol olygedig ar aildychmygu trefn yn y byd yn y ganrif o'n blaenau, trafoda'r theorïwr cysylltiadau rhyngwladol Nicholas Rengger ddiben y maes yn gyffredinol, sef 'to diagnose practical predicaments and to show us how best to confront them'. Er mwyn cyflawni hynny, byddai angen mynd ati i geisio amgyffred pam mae cyd-destunau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd ein bywydau fel y maen nhw, a hynny er mwyn cynnig 'how far, and through what actions, and at what risk, we can realistically hope to move this world as it now stands towards the way we might excusably wish it to be' (yn Paipais 2022: t. 3). Gan ategu hyn,

<sup>8</sup> 'Garantizar los derechos lingüísticos de las personas que traben relación con las Administraciones autonómica, forales y municipales.'

<sup>9</sup> 'Índice de obligado cumplimiento.'

<sup>10</sup> 'Un problema amb què s'han d'enfrontar totes les minories.'

deil y gwyddonydd gwleidyddol Ned Lebow mai un o'r cymhellion grymusaf dros geisio datblygu a mireinio byd theoreiddio yw 'to prevent pessimism from turning into fatalism by keeping alternative visions alive' (2008: t. 14). I'r un perwyl, cynigia'r hanesydd Paul O'Leary fod y gwaith o gymharu sefyllfaoedd yn 'ffrwyth ymateb i argyfyngau cyhoeddus, deallusol a phersonol' (2024: 26). Ystyrir yma felly y berthynas rhwng y defnydd o gyfieithu i'r Gymraeg a 'normaleiddio ieithyddol' yng nghyd-destun 'anhwylder', gan ofyn a allwn oresgyn marc theoretig normaleiddio a chynnig gosod yn ei le seiliau cyfreithloni gwahanol sy'n cydnabod bod tensiynau a chydbwysedd fel ei gilydd yn y gyhoeddfa Gymraeg? Wedi'r cwbl, ynghlwm wrth fod yn aelod o unrhyw gymuned wleidyddol y mae 'at once the *most particular* and the *most universal* level of human experience' (Svenungsson, 2022: 83).<sup>11</sup>

Bellach, mae'r term 'normaleiddio ieithyddol' yng Nghymru wedi ennill ei blwyf yn weddol ddi-ddadl yng nghanon y llenyddiaeth ar ieithoedd lleiafrifedig neu anwladwriaethol, gan ddatblygu'n llaw fer i gwmpasu'r broses o ehangu'r defnydd o'r Gymraeg mewn nifer gynyddol o sefyllfaoedd cymdeithasol (e.e. Jones a Lewis 2019, McLeod et al. 2022, Williams 2013). Wrth drafod datblygiad y term yng Nghatalwnia yn 2016, nododd y cymdeithasegydd iaith Isidor Marí y canlynol:

Mae'n wir bod syniad normaleiddio ieithyddol wedi bod yn bresennol — ac mae'n gymharol bresennol o hyd— yn y ddisgwrs gyhoeddus a'r cynigion gwleidyddol a geir ynghylch y sefyllfa gymdeithasol-ieithyddol a'r awydd i adfer llawnder swyddogaethol y Gatalaneg. (2016: 220)<sup>12</sup>

Priodolodd Marí y term i'r cymdeithasegydd iaith Lluís Vicent Aracil o Falensia a oedd wedi addasu'r term yn 1965 o gysyniad cydbwysedd mewn systemau seibernetig a ddyfeisiodd y gwyddonydd Norbert Wiener, Athro Mathemateg yn y Massachusetts Institute of Technology (MIT). Magodd y cysyniad adenydd wedi hynny drwy ei gyplysu â 'dwyieithrwydd diglosig' y cymdeithasegwyr iaith Charles Ferguson a Joshua Fishman o'r Unol Daleithiau (2016: 221).

Ymhlith yr ychydig o gymdeithasegwyr iaith sydd wedi problemau fframwaith normaleiddio ieithyddol yng Nghymru y mae Glyn Williams a Delyth Morris a fynnai drin 'minority language groups as normal in terms of sociological concepts' (2000: t. xxxiii). Yn eu llyfr *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age*, cyflwynir ganddynt normatifrwydd a'i gyplysu â normaleiddio fel a ganlyn:

The work of Foucault suggests that normativity is ingrained with power. It is also evident that there are different processes and struggles over normativity (...) Thus the concept of normalization with reference to language planning must be qualified if it is to be of any value. (2000: tt. 26–7)

<sup>11</sup> Italeiddio yn y gwreiddiol.

<sup>12</sup> Cyfieithiad yr awdur i'r Gymraeg. 'És cert que la idea de normalització lingüística ha estat present —i encara és relativament present— en el discurs públic i els plantejaments polítics referents a la situació sociolingüística i a la voluntat de recuperar la plenitud funcional de la llengua catalana.'

I Williams a Morris, ystyr hyn yw bod yn rhaid cyfeirio at y defnydd o iaith yng nghyd-destun y ffordd y bydd ystyr yn cael ei chreu'n gymdeithasol ar sail ymddygiad cymdeithasol. Yn hynny o beth, yn hytrach na cheisio trin 'minority language groups as normal', mae'r theorïwr diwylliannol o Gatalwnia, Josep-Anton Fernández, yn problemu adeiladwaith cyfan normaleiddio, gan ddadlau bod dilyn y prosesau sy'n gysylltiedig ag ef yn arwain at yr hyn a eilw'n 'anhwylder', cyn mynd rhagddo i gynnig ffordd wahanol o oresgyn y gwarthnodi ynghlwm wrth fod yn lleiafrif, a hynny drwy'r angen i '*gyfanfydoli* bydolwg eu llafur artistiaidd a diwylliannol er mwyn newid y ffyrdd o amgyffred realiti cymdeithasol a'r gynnen sy'n digwydd yn sgil hyn' (Fernández 2008: 365).<sup>13</sup> Beth a olygir ganddo wrth 'gyfanfydoli'? Haera'r hanesydd Dipesh Chakrabarty fod angen 'universals in the condition of political modernity. Without them there would be no social science that addresses issues of modern social justice' (2000: 5)<sup>14</sup> tra'n cydnabod ar y llaw arall bod ysgolheictod yn y dyniaethau wedi dysgu i fod yn 'extremely suspicious of all claims of totality and universalism' (2021: 18). Yn hytrach, dadleua dros 'a negative universal history' sy'n caniatáu i'r 'particular to express its resistance to its imbrication in the totality without denying being so imbricated' (2021: 47) neu'r hyn a eilw'r athronydd Marina Garcés yn broblem sy'n cyfuno 'brwydr benodol ag un gyfanfydol ar yr un pryd, gan herio pawb o benodolrwydd a natur annisgwyl y sefyllfa hanesyddol' (2013: 144).<sup>15</sup>

Er bod nifer o ymdriniaethau wedi ymhél â gwleidyddiaeth gwahaniaeth (yn eu plith Rockhill 2016, Butler et al, 2000 a Carlin, 2024 o safbwynt ieithoedd lleiafrifedig), canolbwyntir yma ar feirniadaeth Fernández yn benodol gan ei fod yn problemu cysyniad normaleiddio yng nghyd-destun anhwylder yn y gymdeithas ôl-fodern ac yn cynnig dull o leihau'r gagendor rhwng yr hyn a ystyrir gan leiafrifoedd yn neilltuol benodol yn eu diwylliant a'r hyn a gymerir yn ganiataol sy'n gyfanfydol ac ar yr olwg gyntaf heb fod yn perthyn i'r diwylliant hwnnw. Yn ei lyfr '*Malestar en la cultura catalana*' (Anhwylder yn Niwylliant Catalwnia),<sup>16</sup> beirniada Fernández gysyniad a pholisïau normaleiddio diwylliannol ac ieithyddol Catalwnia ers yr 1980au.<sup>17</sup> Dyma ddiffiniad Fernández ohono gan ei rannu'n dri philer, sef prosiect, proses a disgwrs:

Mae gan normaleiddio diwylliannol ddimensiwn triphlyg, sef *prosiect* gwleidyddol (gan barhau'r prosiect hanesyddol i sefydliadoli diwylliant Catalwnia), *proses* o drawsnewid diwylliannol a chymdeithasol (a gyweiria

<sup>13</sup> 'De la necessitat que les minories universalitzin el seu punt de vista en la seva producció artística i cultural per tal de canviar els esquemes de visió i divisió de la realitat social.' Yr awdur biau'r italeiddio.

<sup>14</sup> Gweler y twf yng nghysyniad cyfiawnder ieithyddol yn rhan o theoreiddio rhyddfrydiaeth wleidyddol, er enghraifft Peled (2017) a Lewis (2017).

<sup>15</sup> 'Es el problema de una lucha singular y universal a la vez, que desde la concreción y la contingencia de la situación histórica interpela a todos los hombres.'

<sup>16</sup> Addasa Fernández yn chwareus lyfr Sigmund Freud '*Das Unbehagen in der Kultur*' (Anhwylder a Diwylliant) i gyd-destun Catalwnia'r 1980au hyd yr 2000au.

<sup>17</sup> Mae ysgolheictod cymdeithasol-ieithyddol y Gatalaneg bellach yn ategu'r feirniadaeth hon o 'normaleiddio' yng nghyd-destun yr iaith (gweler er enghraifft Vila 2016 a Mari 2016).



effeithiau andwyol niweidiol Ffrancoaeth ac a dry diwylliant Catalwnia yn un normal) a *disgwrs* sy'n troi hunaniaeth Catalwnia yn un normal gan ei chyflwyno'n un sy'n gyfreithlon ac yn ddisgyrsiol niwtral. (Fernández 2008: t. 25)<sup>18</sup>

Craidd dadl Fernández yw bod normaleiddio diwylliannol wedi tyfu'n fetanaratif gwag a diddannedd. Yn ôl Fernández, digwydd hyn oherwydd bod normaleiddio wedi troi'n 'ffantasi', sef ffantasi nas gosodir mewn gwrthgyferbyniad â 'realiti' ond sydd mewn gwirionedd yn rhan gwbl gyfannol o'r hyn a elwir yn 'realiti cymdeithasol' (2008: t. 357) ac mai'r ffantasi hon sy'n pweru anhwylder cynyddol yn y gymdeithas, drwy ysu am:

ddod yn rhan o glwb diwylliannau mawr modernedd, ond heb wynebu'r wladwriaeth sy'n ei chadw mewn safle gostyngedig. Gwelir yma anian drychiolaethol normaleiddio, sef yn ei ymdrech i beidio â gweld y gwrthdaro a'r canlyniadau sy'n deillio o'r darostwng sy'n deillio o hynny —mewn geiriau eraill, yn yr ymdrech i lenwi'r gwagle a grëwyd gan y cynhennau sy'n treiddio trwy gymdeithas Catalwnia ac yn ei haflonyddu— bydd y gwrthdaro a'r anhwylder sy'n gysylltedig ag ef yn ymddangos yn symptomau dro ar ôl tro. (2008: t. 358)<sup>19</sup>

Yng ngoleuni hyn, cynigia Fernández 'ffyrdd o ddatrys yr argyfwng' drwy 'gyfanfydoli bydolwg diwylliant Catalwnia' (2008: t. 27).<sup>20</sup> Nid meddwl y mae am agenda, proses a chynnwys cyfanfydoli a fyddai'n barod i'w cyflwyno o'r cychwyn cyntaf yn becyn rhaggylluniedig ond yn hytrach cyfeirio y mae at yr anawsterau sy'n wynebu dinasyddion Catalwnia wrth fabwysiadu safbwynt cyfanfydol, 'hynny yw, bydolwg sy'n caniatáu troi gwrthrychau neilltuol yn rhai cyfanfydol' oherwydd 'y sefyllfa ostyngedig a wynebir ganddynt' (2008: t. 363).<sup>21</sup> Byrdwn tebyg sydd gan Glyn Williams a Gruffudd Williams yn eu llyfr *Language, Hegemony and the European Union* (2016) wrth drafod cyfundrefnau llywodraethu ieithyddol, gan gynnwys 'minority language groups', yn yr Undeb Ewropeaidd.

<sup>18</sup> 'La normalització cultural té una triple dimensió de *projecte* polític (de continuació del projecte històric d'institucionalització de la cultura catalana), de *procés* de transformació cultural i social (que corregeixi els efectes nocius del franquisme i converteixi la cultura catalana en normal) i de *discurs* que naturalitzi la identitat catalana tot presentant-la com a legítima i discursivament neutra.' Italeiddio yn y gwreiddiol.

<sup>19</sup> 'D'entrar a formar part del club de les grans cultures de la modernitat, però sense entrar en confrontació amb l'estat que la manté en posició dominada. És aquí on es revela el caràcter fantasmàtic de la normalització: en el seu intent de no veure el conflicte i les conseqüències derivades de la subordinació resultant —en altres paraules, en l'intent d'omplir el buit constituït pels antagonismes que travessen una societat trasbalsada com la catalana—, el conflicte i el seu malestar concomitant apareixen constantment com a símptoma.'

<sup>20</sup> 'Proposo vies de sortida a la crisi que analitzo al llarg del llibre i que tenen a veure amb ... la universalització del punt de vista de la cultura catalana.'

<sup>21</sup> 'Estic parlant de les dificultats que experimenten els membres de la cultura catalana d'adoptar un punt de vista universal (és a dir, una mirada que permet construir uns objectes particulars com a universals), sens dubte a causa de la posició dominada en què es troben.'



Gan nodi nad yw'r UE yn sefydliad rhyngwladol nac yn genedl-wladwriaeth, cydnebydd fod 'the lack of clarity on its political status makes it difficult to pin down' ond 'as a transnational institution, the EU needs more, not fewer identities' (2016: t. 278) ac am y rheswm hwn dadleua ei bod yn hollbwysig bod cyfundrefnau llywodraethu ieithyddol yn mynd ati i gofleidio 'both the particular and the universal, rather than polarising them'. Dyma ddweud go wleidyddol ar sawl lefel ond, o'i weithredu felly, gallai arwain at 'coherent, forward thinking planning and their translation into policy. This is the challenge we face' (2016: t. 301).

Yn nhrydedd ran yr erthygl hon, enghreifftir yr anawsterau dybryd sydd ynghlwm wrth y gyfundrefn gyfieithu yng Nghymru, a hithau'n rhan 'ddistaw' o lywodraethu ieithyddol ehangach y wlad a pham ei bod, yn ôl pob tebyg, yn llesteirio'r gwaith o roi 'coherent, forward thinking planning' o'r fath ar waith ar sail fwy democrataidd, sy'n grymuso'r dinesydd a'r cyflogai fel ei gilydd.

## Cyfieithu, cyfieitheg a translatores

Yn ei llyfr '*Language Obsolescence and Revitalization*' ar newidiadau ieithyddol yn Rhymni a Rhosllanerchrugog, wrth drafod sefyllfaoedd pan fydd cymdeithas 'in the process of acquiring a non-indigenous language begins to devalue its own' a phan fydd diffyg ei defnyddio yn arwain at 'imperfect acquisition by the younger members', rhesyma'r ieithydd Mari C. Jones fod newidiadau ieithyddol yn rhwym o ddigwydd ym mhob iaith, boed yn iaith y wladwriaeth neu fel arall oblegid '[t]he inherent nature of linguistic systems is such that change is constantly occurring within them regardless of any external stimuli'. Yn achos y newidiadau ieithyddol anorfod hyn, serch hynny, yr hyn sy'n gwahaniaethu ieithoedd a eilw'n 'healthy' oddi wrth ieithoedd sy'n darford amdanynt ('obsolescent' yn ôl terminoleg Jones) yw'r canlynol: 'when such change occurs at an accelerated rate and in conjunction with a specific socio-political context' (1998: 257).<sup>22</sup> Ymhlith yr ieithoedd y gellid honni eu bod bellach yn ieithoedd sy'n darford amdanynt, cydnebydd Jones fod gwahaniaeth rhwng y Gymraeg a Gaeleg yr Alban, er enghraifft. Er bod arwyddion bod y Gymraeg yn dangos 'gradually rising weakness, speaker reduction, linguistic insecurity, and grammatical deviance', noda fod nodweddion cadarnhaol yn perthyn i'r Gymraeg megis 'significant domain expansion, enhanced prestige, and an increase in speaker-numbers in some of the hitherto most Anglicized parts of the country' (1998: 350).

Yn sicr, yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011, mae 'domain expansion' a 'enhanced prestige' wedi dod i ran y Gymraeg. Serch hynny, gan nad oes deddfwriaeth a mecanweithiau polisi cysylltiedig yng Nghymru ar y lefel genedlaethol sy'n

<sup>22</sup> Tebyg yw casgliad yr academydd Astudiaethau Celtaidd Rhisiart Hincks yn ei ymdriniaeth â'r anghydweld yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yng Nghymru rhwng pleidwyr puryddiaeth iaith a'r sawl a gredai y dylid ymwrthod â hi, gan farnu 'y gall fod perthynas arwyddocaol rhwng llwyr ymwrthod â phuryddiaeth a thranc iaith, hynny yw, mewn rhai sefyllfaoedd, pan fo sifft ieithyddol wedi mynd ymhell, bydd puryddiaeth yn tueddu i ddiflannu, gan fod siaradwyr yr iaith, erbyn hynny, wedi rhoi'r gorau i wrthsefyll pob ymyrraeth.' (2007: t. 91)

anelu at gronnol ddwyieithogi gweithlu'r gweinyddiaethau cyhoeddus, megis yng Ngwlad y Basg er enghraifft, mae byd cyfieithu'n ymateb i'r gofynion rheoleiddiol sydd ynghlwm wrth hysbysiadau cydymffurfio'r Mesur.<sup>23</sup> Mewn erthygl yn 2015 gan Sylvia Prys Jones yn y gyfrol *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, e-argraffiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, trafodwyd nifer o bryderon ynghylch y gorddibynnu ar gyfieithu wrth gyflenwi'r gofynion hyn. Fodd bynnag, mae'n werth sylwi, ar ben hynny, ar y ffordd y mae'n geirio'r pryderon hyn gan fod hyn yn ymdebygu i'r 'anesmwythyd' a nodwyd ar ddechrau'r erthygl parthed dyfodol yr iaith ac yn benodol felly, yr 'anhwylder' y cyfeiriodd Josep-Anton Fernández ato:

Serch hynny, nid oes amheuaeth nad yw cerbyd Cymraeg cyhoeddus yn dibynnu'n drwm iawn ar y cyfieithu sy'n mynd ymlaen o dan y fonet *er nad ydym yn hoffi cyfaddef hynny*. Gwelir *angst* Cymry Cymraeg ynghylch cyfieithu yn y mynych gollfarnu ar gyfieithu Saesneg-Cymraeg ... [A]i diffyg sgiliau cyfieithwyr yn y ddwy iaith sy'n cyfrif am hyn? ... tybed ai rhan o'r rheswm hefyd yw ein bod yn seilio'n gweithgarwch cyfieithu ar gysyniadau *nad ydym yn eu trin a'u trafod yn agored* am *nad ydym yn fodlon cyfaddef ein dibyniaeth ar gyfieithu?* (2008: 100)<sup>24</sup>

Yng nghyd-destun prif ddiben yr erthygl hon, sef gofyn a yw'n bryd ystyried cynnwys byd cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg yn rhan o fecanwaith mwy dinesydd-ganolog sy'n cynnwys proffiliau a chwotâu iaith, ymddengys bod Jones yn dymuno codi cwr y llen ar natur 'ddistaw' rôl cyfieithu wrth i'r Safonau gael eu rhoi ar waith, a hynny drwy nodi ei bod yn 'rhyfedd o beth nad oes llawer o drafodaeth wedi bod ar y cwestiynau: beth yw cyfieithu? Sut yr ydym yn diffinio'r gweithgarwch hwn yng nghyd-destun y Gymru fodern?' (2015: 97). Unwaith eto, barna fod 'ein perthynas â chyfieithu'n un *anesmwyth* yn y bôn'.<sup>25</sup> (2015: 100)

Yn 2012, yn ei ragair i *Iaith Fyw: Iaith Byw*, sef Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru rhwng 2012 a 2017, datganodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y '[b]ydd safonau hybu'r Gymraeg yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol ledled Cymru i annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg' a bod system y safonau'n 'rhoi cyfle i ni ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau all wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r iaith. Rhaid i ni sicrhau bod gwasanaethau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc ar gael yn y Gymraeg.' (Llywodraeth Cymru, 2012: t. 3–4). Gellid yn rhwydd dybio mai'r unig ffordd i warantu llywyddiant system o'r fath fyddai cyfieithu'r deunydd sydd ynghlwm wrth y dyletswyddau a'r gwasanaethau dan sylw yn sgil diffyg gweithlu dwyieithog a allai gyflawni'r gofynion polisi a diwallu anghenion tybiedig y dinesydd. Aeth y Gweinidog yn ei flaen, '[r]haid i ni roi'r gorau i feddwl am y Gymraeg yn nhermau cyfieithu a'i hystyried yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yng Nghymru' (Llywodraeth

<sup>23</sup> Yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

<sup>24</sup> Yr awdur biau'r italeiddio.

<sup>25</sup> Yr awdur biau'r italeiddio.

Cymru, 2012: t. 4). Fodd bynnag, dair blynedd ar ddeg wedi cyhoeddi'r geiriau hynny, onid cyfieithu yw peiriant 'cerbyd Cymraeg cyhoeddus' o hyd ac os ydys o ddifrif ynghylch rhoi'r gorau i feddwl am y Gymraeg yn nhermau cyfieithu, oni ddylid chwilio am arferion gorau mewn cyd-destunau eraill a allai daflu goleuni ar sut y gellid llwyddo yn hyn o beth?

Yn 2017, yn nogfen '*Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*' Llywodraeth Cymru, nododd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, ac Alun Davies, Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, fod y Gymraeg yn 'un o drysorau Cymru' ac yn 'rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl'. Uchelgais y Llywodraeth oedd 'gweld miliwn o bobl yn gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg erbyn 2050' a phe codid 'lefel ein disgwyliadau a mabwysiadu gweledigaeth uchelgeisiol, mae gennym y potensial i newid y rhagolygon ar gyfer yr iaith' (Llywodraeth Cymru 2017: tt. 2–3). Yn yr adran ar 'Gwasanaethau' yn y ddogfen honno, roedd y Llywodraeth yn dymuno '[g]weld cynnydd yn yr ystod o wasanaethau a gynigir yn y Gymraeg, a hefyd yn y defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny (Llywodraeth Cymru 2017: t. 52). Serch hynny, cyfeiriodd y ddogfen at ymchwil annibynnol gan Gyngor ar Bopeth a oedd yn awgrymu bod sawl ffactor yn dylanwadu ar y defnydd o wasanaethau Cymraeg 'gan gynnwys pa mor hygyrch ac amlwg yw'r gwasanaeth, *barn siaradwyr am ansawdd y ddarpariaeth*, a dewisiadau ymddygiadol.'<sup>26</sup> (Llywodraeth Cymru 2017: t. 53). Wrth gyfeirio at safon y ddarpariaeth, dichon fod yma adleisio o'r pryder a amlygwyd yn ysgrif Silvia Prys Jones.

Bid sicr, yn achos ieithoedd lleiafrifedig yn enwedig, ni ellir gwadu bod perthynas glòs rhwng y canfyddiad bod y broses gyfieithu yn y gymdeithas ynghlwm wrth barhad yr iaith a'r hunanhyder a ddaw yn sgil hyn i'w siaradwyr (Cronin 2003: 146) ac mai hyn sy'n gyfrifol, ym marn Sylvia Prys Jones, fod 'a wnelo Cymraeg swyddogol â hunaniaeth a hunan-barch Cymry Cymraeg ac â statws yr iaith' gan ei bod bellach yn 'gyfrwng mynegi ffeithiau, syniadau a negeseuon ... sy'n cyfleu statws ac awdurdod y Gymraeg' (2015: tt.101–02). Fodd bynnag, ar ddiwedd ei herthygl, ac er gwaethaf y prosesau diymwad uchod a chan gadarnhau'r rôl allweddol sydd gan gyfieithu yn y Gymru ddwyieithog, lleisir y pryder ganddi unwaith yn rhagor fel a ganlyn, 'rydym yn amheus o gyfieithu oherwydd yn lle achub yr iaith, gall beri niwed mawr iddi' (2015: t. 112).

Yn ôl Michael Cronin, mae gan ieithoedd lleiafrifedig 'berthynas baradocsaid' â chyfieithu. Er mwyn parhau i fod yn gyfryngau hyfyw a pherthnasol mewn byd amlieithog lle y bydd llifoedd gwybodaeth yn prysur gynyddu blithdraphlith rhwng ieithoedd mwyafrifol a lleiafrifedig fel ei gilydd, mae'n rhaid i gyfieithu yn yr ieithoedd hyn ddiogwydd yn barhaus. Fodd bynnag, drwy wneud hynny:

Translation itself may in fact endanger the very specificity of those languages that practise it, particularly in situations of diglossia. The situation of translation in the culture of a minority language is therefore highly ambiguous. (2003: 146-147)

<sup>26</sup> Yr awdur biau'r italeiddio.

Ym marn Cronin, yng nghyd-destun ‘the minority language culture’ mae a wnelo'r amwysedd hwn yn rhannol â swyddogaethau pragmataidd ac esthetig sydd ynghlwm wrth gyfieithu. Ystyr ‘pragmataidd’ yma yw'r gofynion beunyddiol ac ymarferol hynny a osodir ar weinyddiaethau cyhoeddus unrhyw gymuned wleidyddol. Yn y bedwaredd adran, cyflwynaf swyddogaeth arall ar ben y ‘pragmataidd’ a'r ‘esthetig’ y dylid ei hystyried wrth gloriannu a yw perthynas cyfieithu â'r iaith lleiafrifedig yn un ‘amwys’, sef y swyddogaeth ‘ddemocrataidd’. Am y tro, fodd bynnag, dychwelwn at y swyddogaeth pragmataidd i weld yr hyn ‘sy'n mynd ymlaen o dan y fonet’, chwedl Sylvia Prys Jones, gan ofyn a all cyfieithu ‘beri niwed mawr’.

Nid bwriad yr erthygl yw ailymweld â'r drafodaeth ym myd astudiaethau cyfieithu ynghylch y berthynas rhwng cyfatebiaeth [correspondence], sef cyfieithu sy'n digwydd ar lefel y gair a'r frawddeg unigol, a chywerthedd [equivalence] pan fydd y cyfieithydd yn ystyried y testun a'r ystyron sydd ynghlwm wrtho yn ei gyfanrwydd er mwyn rhoi i'r fersiwn y cyfieithir iddi yr un grym a'r un awdurdod â'r testun gwreiddiol (gweler er enghraifft Pym 2014, Lederer 2014 a Screen 2021). Yn hytrach, er mwyn mynd i'r afael â goblygiadau'r drafodaeth uchod, cyfeirïaf yn hytrach at yr hyn a eilw Michael Cronin yn ‘classic double bind’ sy'n effeithio ar gyfieithwyr ieithoedd lleiafrifedig. Ar y naill law, os bydd y cyfieithydd yn caniatáu i natur anghyfiaith yr iaith fwyafrifol frigo yn y cyfieithiad, yna y perygl yw y bydd iaith y cyfieithiadau'n mynd yn ‘less and less recognizable as a separate linguistic entity capable of future development and becomes instead a pallid imitation of the source language in translatoresque’. Ar y llaw arall, serch hynny, os na chaniateir ymyrraeth ieithyddol o'r iaith wreiddiol gan ddewis ‘target-oriented communicative translations that domesticate the foreign text, the danger is one of complacent stasis’ (Cronin 2003: t. 147). Afraid dweud bod y ffenomen hon yn effeithio ar ieithoedd mwyafrifol yn ogystal. Er i'r defnydd o briod-ddulliau a chystrawennu Seisnigaidd fynd yn drafodaeth fywiog – a chwyrn – yn Ffrainc er enghraifft (Saugera 2017), bydd perthynas siaradwyr lleiafrifedig â chyfieithu yn ‘immediately problematic’ a'u hymateb yn aml yn agored i gael ei bardduo'n ‘ethnocentric chauvinism’ (Cronin, 2003: t. 147).

Yn y cyflwyniad, cyfeiriwyd at ffenomen ieithyddol a elwir yn ‘metatypy’, sef ‘a diachronic process whereby the morphosyntactic constructions of one of the languages of a bilingual speech community are restructured on the model of the constructions of the speakers' other language’ (Ross 2007: 116) a bod trafodaeth bellach ynghylch a ellir cymhwyso'r disgrifiad hwn i'r berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd llyfr Cronin, gwêl y manteision blaengar a rhyddfrefiniol sydd ynghlwm wrth gyfieithu, er gwaethaf y problemau ynghylch derbynioldeb yr iaith y cyfieithir iddi:

One of the most common difficulties experienced by trainee translators is that they suffer from a deficit of particular attachment to their native language and tend to neglect it or take it for granted and so fail to produce acceptable work in the language which is their own. We could argue moreover that notions of *place and particularism* which are often

associated with minority languages can be considered in a way that is emancipatory rather than exclusive. (Cronin 2003: t. 170).<sup>27</sup>

Fodd bynnag, o ailgydio yn nisgrifiad yr ieithydd Malcolm Ross uchod a chan gofio'r cyfeirio gan Sylvia Prys Jones at y mynych gollfarnu ar 'gyfieitheg', a yw'n bryd gofyn i ba raddau mae byd cyfieithu Saesneg-Cymraeg yn medru llunio 'acceptable work in the language which is their own' oherwydd bod metatypy, yn ôl Malcolm Ross, 'almost certainly consists of processes of which speakers are scarcely aware,<sup>28</sup> and this suggests that speakers do not 'choose' certain constructions to 'borrow' a bod hyn yn debygol o ddiwydd 'across the board wherever there are differences in content form between the replica language and the model language' (Ross 2007: 139)?<sup>29</sup> Mewn ymchwil o'r enw '*Proffilio gwallau: Dadansoddiad o'r gwallau a wneir gan gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg*', a noddwyd yn rhannol gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, canfu Dawn Woolridge fod y defnydd o'r fannod, llunio is-gymalau a chyflenwi berfau, enwau ac ansoddeiriau yn feysydd y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth hyfforddi cyfieithwyr, gan nodi 'ymddengys bod gwybodaeth ieithyddol cyfieithwyr Saesneg-Cymraeg yn wannach na'r disgwyl', a bod y 'llu o enghreifftiau o gyfieithu llythrennol' yn dangos nad yw 'cyfieithwyr yn sicr eu defnydd o'r Gymraeg a'i theithi, gan greu cyfieithiadau lletchwith o ganlyniad'. (2015: 110–12). Ymddengys bod yr uchod ond yn ategu canfyddiad Cronin ei bod yn bosibl y bydd ieithoedd lleiafrifedig sy'n cael eu gwasgu gan ieithoedd mawr o bwys yn ildio 'at lexical and syntactic levels so that over time they become mirror images of the dominant language' (Cronin 2003: 141).

Nid yw'n fwiad gennyf dorri'r ddadl hon, os dadl ydyw, ac yn ddi-os byddai rhagor o ymchwil gymharol yn y maes hwn o fudd. Yn hytrach, cymerwn yr enghraifft isod gan y golygydd llawrydd Marian Beech Hughes, sy'n trafod gwallau cyffredin ymhlith cyfieithwyr:

**Camddeall y gwreiddiol** neu ddefnyddio'r gair neu'r geiriau anghywir yn Gymraeg, e.e. 'aflonyddwch i'r gwasanaeth casglu sbwriel' am 'rubbish collection services disruption' yn hytrach na 'tarfu ar y gwasanaeth casglu sbwriel'. (2022: 47)<sup>30</sup>

Yng nghasgliad Sylvia Prys Jones, cawn gip unwaith yn rhagor ar yr anhwylder yn sgil y gagendor rhwng 'iaith fwyaf pwerus y byd ac iaith fach o dan fygythiad enbyd, dwy iaith y

<sup>27</sup> Italeiddio yn y fersiwn wreiddiol.

<sup>28</sup> I'r un perwyl, mewn e-gyfrol ar gyfieithu ysgrifenedig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, haera'r cyfieithydd Fiona Gannon fod 'y Gymraeg a'r Saesneg wedi bodoli ochr yn ochr â'i gilydd ers cyhyd, a bod patrymau'r Gymraeg, oherwydd ei bod yn iaith leiafrifol, o reidrwydd yn dod o dan ddylanwad patrymau'r iaith bwerus sy'n gymydog iddi. O ganlyniad, gall patrymau'r Saesneg dreiddio i'r Gymraeg bron yn ddiarwybod' (2022: t. 39).

<sup>29</sup> Cymharer y diffyg ymwybyddiaeth hwn â'r adegau pan fydd y gwrthwyneb yn digwydd yn achos y defnydd o 'syncretic or mixed language cambrophone-anglophone codes' (James 2018: t. 30). Tanlinellu yn y gwreiddiol.

<sup>30</sup> Print du yn y gwreiddiol.

mae eu statws cymdeithasol, parthau eu defnydd a *rhugledd eu siaradwyr yn gwbl wahanol*. *Rhaid ystyried hyn wrth gyfieithu*<sup>31</sup> (2015: t. 111). Yn ddi-os, bydd hyn yn her i fyd cyfieithu Saesneg-Cymraeg am ddegawdau i ddod yn ôl pob tebyg, ond os deuir i'r casgliad bod byd cyfieithu yn methu bob amser â sicrhau 'cerbyd Cymraeg cyhoeddus' addas at ddibenion gweinyddiaeth gwlad ym mhriod iaith y wlad honno, mae gofyn ystyried opsiynau cyflenwol a fydd yn helpu i osgoi'r posibilrwydd yn y dyfodol y bydd achosion posibl o gamweinyddu yn sgil camgyfieithu cyson wrth i'r Safonau ddyfnhau.<sup>32</sup> Ceir mecanweithiau polisi eraill yn y bau ryngwladol sy'n anelu at sicrhau bod y dinesydd yn cael defnyddio ei ddewis iaith yn gyhoeddus mewn ffordd fwy tryloyw na'r sefyllfa gyfredol yng Nghymru i bob golwg drwy 'the good offices of translation' (Cronin 2003: t. 143). Edrychwn ar rai o'r mecanweithiau hyn.

## Goleddfu'r anhwylder? Proffiliau ieithyddol, y dinesydd a'r wladwriaeth

Ymddengys, felly, fod rhyw lun ar anhwylder wedi'i fynegi – yn enwedig o safbwynt sgiliau ieithyddol – gan rai sydd ynghlwm wrth yr ymdrech i broffesiynoli byd cyfieithu Saesneg-Cymraeg. Ar ben hynny, er bod y cyfieithydd Nia Davies yn nodi bod y grefft 'yn gofyn am ddealltwriaeth drylwyr (o'r pwnc ei hun ac o'r ddwy iaith)' (2022: t. 13), nid yw'n anodd tybio y bydd cyfieithwyr anarbenigol yn cael problemau yn eu gwaith beunyddiol o ran *deall* y testun gwreiddiol oblegid '[t]he nature of a text, for example stylistics, clarity of expressed ideas, and so on, may also determine how successful the process of comprehension can be' (Hatzidaki 2007: 19) yn enwedig pan fydd cyfieithwyr anarbenigol<sup>33</sup> yn ymdrin â thestunau tra arbenigol, er enghraifft yng nghyd-destun sefydliadau amlganhennog megis y sector iechyd neu addysg drwyddi draw. Serch hynny, os nad taflu'r llo a chadw'r brych yw'r dymuniad, hwyrach y gellid dechrau cymhwyso cysyniad 'ecoleg cyfieithu' Michael Cronin i fyd gweinyddiaethau cyhoeddus Cymru, gan gynnig ffyrdd cyflenwol posibl i fodloni'n well uchelgais y polisiâu uchod i ystyried y Gymraeg 'yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yng Nghymru', a hynny trwy beidio â gorddibynnu ar gyfieithu Saesneg-Cymraeg:

If translation has played such a crucial role in the consolidation and development of imperial and national languages, there is no intrinsic reason why translation should not be of benefit to minority languages. But in the context of globalization benefits will accrue only if we are to conceive of a translation ecology: a translation practice that gives control

<sup>31</sup> Yr awdur biau'r italeiddio.

<sup>32</sup> Er na ddiffinnir camweinyddu yn neddfwriaeth y DU, gallai arwain at 'a valid complaint' oherwydd achosion o 'service failure' yn sgil 'poor communication' a 'giving out misleading information' (Priddy 2024: t. 8).

<sup>33</sup> Nid yw'r awdur yn ymwybodol o ymchwil benodol sydd wedi dadansoddi priodoldeb, cywair, safon a thrylwyredd cyfieithiadau gan gwmnïau allanol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.

to speakers and translators of minority languages of what, when and (...) how texts might be translated into and out of their languages. (2003: 167)

Un ffordd o osgoi gorddibyniaeth yn hyn o beth yw drwy uwchsgilio a graddol ddwyieithogi'r gweithlu. Gadewch inni edrych yn gyntaf ar Iwerddon yn dilyn y datblygiadau deddfwriaethol diweddar yno. Yn Erthygl 8 y Cyfansoddiad, datgenir mai '[t]he Irish language as the national language is the first official language' a chydabyddir y Saesneg ar sail 'a second official language'. Yn 2021, yn dilyn diwygio Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003, deddfwyd 'that 20% of recruits to public bodies will be competent in the Irish language by 2030' a bod trefniadau ar gyfer yr uwchsgilio eisoes ar waith yn hynny o beth (Llywodraeth Iwerddon 2022). Dyma newid cyfeiriad polisi go sylweddol o du Lywodraeth Iwerddon yn dilyn diddymu'r gofyniad ym 1973 am gymhwysedd yn yr Wyddeleg gogyfer â'r Gwasanaeth Sifil (Shields 2016: t. 356).

System gyfansoddiadol sy'n cyfuno agweddau ar y gyfraith gyffredin a'r gyfraith sifil fel ei gilydd yw un Iwerddon a honnir bod dull y gyfraith gyffredin wedi mynd yn 'more entrenched the longer the Constitution has been in existence' yn y wlad honno (Doyle 2018: t. 171). Dyma hefyd y dull cyfreithiol sy'n nodweddu'r Deyrnas Unedig (Edlin 2007) yn draddodiadol. Serch hynny, fel y noda'r cymdeithasegydd iaith Diarmait Mac Giolla Chríost wrth drafod natur swyddogol y Gymraeg ym Mesur y Gymraeg 2011,<sup>34</sup> nid yw dull y gyfraith gyffredin a'r gyfraith sifil yn 'mutually exclusive notions' mewn cyd-destunau lle ceir 'considerable overlap and hybridity' (2016: 189–90). Yn wir, yn ôl Richard Heaton, cyn-Brif Gwnsler Seneddol Swyddfa'r Cabinet, yn y DU ceir 'a vibrant source of judge-made law, sitting alongside a vast stock of statute law' (2014).

Cymharydd arall yw Gwlad y Basg. Mae'r tebygrwydd demograffig-ieithyddol rhwng Gwlad y Basg a Chymru yn y cyd-destun is-wladwriaethol Ewropeaidd ehangach eisoes yn hysbys,<sup>35</sup> a chafwyd dros y degawdau diwethaf enghreifftiau ar y naill law o greu cysylltiadau sefydliadol rhwng y ddwy wlad ac ar y llall 'a relative lack of appetite for international learning' ar y lefel weinidogol yn ogystal â 'a clear tendency to seek to "close down" discussions that ventured towards comparison with other international cases, based on the simple retort that "Wales is different"' (Jones a Lewis 2019: t. 281).

Parthed ystadegau ieithyddol yng Ngwlad y Basg, cynyddodd nifer y siaradwyr bron 10% (o 24.1% i 33.9%) rhwng 1991 a 2016, sef 216,000 yn rhagor o siaradwyr (Urrutia Libarona 2019: 218). Beth sydd i'w gyfrif am hynny? Yn ôl yr academydd cyfreithiol Iñigo Urrutia Libarona, ac yng nghyd-destun penodol y gweinyddiaethau cyhoeddus,<sup>36</sup> pennu natur

<sup>34</sup> Diddorol yw nodi, yn y cylch polisi rhwng Mehefin 2008 ac Ebrill 2009, i enghreifftiau posibl o eirio erthygl mewn deddfwriaeth a fyddai'n dynodi'r Gymraeg yn iaith swyddogol gael eu llunio, yn eu plith, un sydd yn hynod debyg i eiriad cyfansoddiad Iwerddon, fel a ganlyn, 'Welsh is the national language of Wales. English is also an official language of Wales' (Mac Giolla Chríost 2016: t. 160).

<sup>35</sup> Gweler, er enghraifft, Llywodraeth Gwlad y Basg (2020) ac Iñigo Urrutia Libarona (2019) am yr ystadegau perthnasol.

<sup>36</sup> Trafodir yn nes ymlaen ddyllanwad Deddf Ysgolion Cyhoeddus Gwlad y Basg 1993.



swyddogol y Fasgeg yn Statud Humanlywodraethol Gwlad y Basg 1979 yw cychwynbwynt y cynnydd yn yr iaith byth oddi ar hynny (Urrutia Libarona 2019: 219), gan i'r Statud arwain at Ddeddf Normaleiddio'r Defnydd o'r Fasgeg 1982 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gweinyddiaethau cyhoeddus bennu'r 'swyddi y bydd yr wybodaeth o'r ddwy iaith yn orfodol ar eu cyfer'.<sup>37</sup> Esgorodd Deddf 1982 ar Orchymyn 86/1997, sef yr is-ddeddfwriaeth sy'n rheoli system y 'proffiliau ieithyddol'.<sup>38</sup> Yn unol â'r gyfundrefn hon, bydd un o blith pedwar proffil ieithyddol yn perthyn i bob swydd yn y weinyddiaeth gyhoeddus. Yn rhan o rai proffiliau, felly, bydd gofyn i ddeiliad y swydd gyrraedd lefel o gymhwysedd penodol yn y Fasgeg erbyn dyddiad penodol. Pennir nifer y proffiliau yn unol â'r ystadegau ieithyddol ynghylch yr wybodaeth o'r Fasgeg ymhlith y boblogaeth ym mhob ardal weinyddol, boed hynny ar lefel sefydliadau cymuned humanlywodraethol Gwlad y Basg, tair talaith codi trethi Gwlad y Basg neu'r neuaddau tref niferus, a hynny gan ddefnyddio'r fformwla ganlynol a elwir yn 'fynegai gorfodaeth', sef:

$$\% \text{ siaradwyr Basgeg} + (\% \text{ lled siaradwyr Basgeg} / 2)^{39}$$

Felly, gan ddibynnu ar ganlyniadau cyfrifiadau dilynol, mae'n ddamcaniaethol bosibl y bydd y mynegai gorfodaeth yn cynyddu neu'n gostwng ond, fel y gwelsom, mae ystyriaethau democrataidd, demograffig ac ieithyddol wedi arwain at gynnydd yn y mynegai gorfodaeth – nid oes yr un llywodraeth humanlywodraethol yng Ngwlad y Basg wedi newid cyfeiriad seiliau cyffredinol Deddf 1982 uchod – ac felly at lwyddiant cronol yn y broses o ddwyieithogi'r gweithlu. Ers rhoi'r mynegai gorfodaeth ar waith ddegawdau yn ôl, nid oes penderfyniadau barnwrol yn erbyn seiliau cyffredinol cyfundrefn y proffiliau wedi bod ac ym marn Iñigo Urrutia:

Gellir ystyried y diffyg cyfreitheg ynghylch system y proffiliau yn dystiolaeth ei bod yn gyfreithiol briodol. Ac mae'r system gynllunio sy'n seiliedig ar y proffiliau ieithyddol, sy'n nodi'r swyddi hynny y mae gwybodaeth o'r Fasgeg yn orfodol ar eu cyfer ar lefel yr unigolyn, *yn unol â realiti cymdeithasol-ieithyddol y boblogaeth*, yn chwala unrhyw honiad ei bod yn anghyfansoddiadol (Urrutia Libarona, 2019: 227).<sup>40</sup>

<sup>37</sup> Erthygl 14.2: 'Los poderes públicos determinarán las plazas para las que es preceptivo el conocimiento de ambas lenguas'.

<sup>38</sup> Cafodd cyfundrefn y proffiliau ieithyddol ei haddasu i weddu i ofynion Gwlad y Basg yn sgil cymharu profiad system swyddi dwyieithog Gweinyddiaeth Ffederal Canada, cyfundrefn ieithyddol Prifddinas-Ranbarth Brwsel a'r model ieithyddol yn y Ffindir (Urrutia Libarona 2019: 227).

<sup>39</sup> '% Euskaldunak + (% Ia Euskaldunak / 2)' (Cofnod Swyddogol Gwlad y Basg 1997), t. 6199.

<sup>40</sup> 'La falta de referencias jurisprudenciales relativas al sistema de perfiles puede ser considerada como una evidencia de su adecuación jurídica. Y es que el sistema de planificación basado en los perfiles lingüísticos, que individualiza las plazas en las que el conocimiento del euskera será preceptivo, de acuerdo con la realidad sociolingüística de la población, y exigiendo unos estándares acomodados a la naturaleza de las funciones del puesto, despeja toda tacha de inconstitucionalidad.' Yr awdur biau'r italeiddio.

Yn wir, atega Urrutia i'r herio cyfreithiol a nodweddi'r 1980au a'r 1990au ar ôl Deddf 1982 ddod i ben yn sgil rhoi cyfundrefn proffiliau ieithyddol Gorchymyn 86/1997 ar waith (Urrutia Libarona, 2019: 227–8) ac nid yw'n annhebygol y gellir priodoli hyn i'r proffilio ieithyddol sy'n esgor o'r Gorchymyn gan ei fod yn digwydd ar sail y 'realiti cymdeithasol-ieithyddol' y cyfeirir ato uchod.<sup>41</sup>

Afraid dweud, wrth reswm, fod cyfundrefnau tra gwahanol ar waith yn y ddwy wlad, ond os ystyriwn fod cryn debygrwydd rhwng categorïau'r ysgolion yng Ngwlad y Basg – y tri model, sef A, B a D<sup>42</sup> o'u cymharu â thri chategori cyfrwng Saesneg (Categori 1), dwy iaith (Categori 2) a Chymraeg (Categori 3 a 3P) y sector cynradd ac uwchradd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru 2021) – hwyrach y gellid gofyn a oes seiliau mwy democrataidd a rhesymegol a fyddai'n ieuo system addysg â system gweinyddiaeth gyhoeddus Cymru mewn ffordd fwy agored, cydlynus a chyfannol?<sup>43</sup>

## Casgliad

Yn y cyflwyniad, gwelsom i'r awdur Wiliam Owen Roberts ddatgan am y gwaith o lenyddu yn Gymraeg, 'You are writing on the edge of catastrophe'. Yn ei nofel *Cymru Fydd*, a gyhoeddwyd yn 2022, math arall o drychineb sydd ar ein gwarthaf yn y flwyddyn 2090. Er bod y Gymraeg bellach wedi'i hadfer yn iaith Gwladwriaeth Cymru, mae Caerdydd o dan y tonnau ac ar y cyrion anfodlon eu byd bwriedir gweithredu yn erbyn y 'Cymric-speaking settlements' sy'n meddiannu 'more and more of our land ... the settlers are all alien, armed and dangerous' (2022: 15). Ein rhybuddio felly a wna'r nofelydd rhag deisyfu gwastrodi grwpiau penodol o bobl yn enw'r ddynolryw gyfan.

Dyna yw byrdwn Josep-Anton Fernández wrth broblemu cysyniad normaleiddio, sef y duedd i gredu bod 'trysor cyfrinachol' wrth wraidd diwylliant 'sy'n cynnwys ein hunaniaeth (ein gwirionedd dyfnaf ac anwylaf un), ac a fydd yn datgelu ei natur gyfanfydol'. Oherwydd hynny, medd Fernández, mae angen 'beirniadaeth gyson i osgoi ein bod yn atgynhyrchu'r gwerthoedd tra-arglwyddiaethol a oedd gynt yn ein gwastrodi' (2008: 369).<sup>44</sup> Drwy ymwrthod â chysyniad normaleiddio, ac yn ei dro leihau'r gordddefnydd o gyfieithu mewn

<sup>41</sup> Gellid dehongli'r duedd estynedig hon yn sgil penderfyniad Tribiwnlys Cyfansoddiadol Sbaen yn 2023 i ddirymu Deddf Sefydliadau Lleol Gwlad y Basg 2016 a oedd yn agor y posibilrwydd o weinyddu neuaddau tref trwy gyfrwng un *yn unig* o'r ieithoedd swyddogol (Arzo Santiesteban 2024). Gweler Urrutia Pujana ac Urrutia Libarona (2024) am gyd-destun cyfredol deddfu ar broffilio ieithyddol a phenderfyniadau barnwrol sy'n cyfyngu ar y defnydd o'r Fasgeg ymhlith heddluoedd lleol.

<sup>42</sup> Er y bydd deddf newydd yn cymryd lle Deddf Ysgolion Cyhoeddus Gwlad y Basg 1993 yn fuan, bydd y tri model yn cael eu cadw ac anelir at greu 'system 'amleithog' sydd â'r Fasgeg yn 'echel' iddi' (Fernández de Lucio, 2023), 'la ley aboga por un sistema 'plurilingüe' que tenga al euskera como 'eje'.

<sup>43</sup> Yn wir, yn dilyn Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru) yn 2024, ymddengys nad annhebyg yw geiriad 'lled siaradwyr' Gorchymyn 86/1997 uchod i eiriad y Bil ynghylch y 'defnyddiwr Cymraeg annibynnol' sy'n cyfateb i Lefelau B1 a B2 Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (Bowyer a Dauncey, 2024: 7) at ddibenion 'siarad Cymraeg yn annibynnol ac yn hyderus yn dda' (2024: 27).

<sup>44</sup> 'En el seu interior rau un tresor secret que inclou la nostra identitat (la nostra veritat íntima i profunda) i que en revelarà la universalitat', 'cal ... una crítica constant per evitar que reproduxeixi els valors dominants que ens han col·locat d'antuvi en una posició subordinada'.

gweinyddiaeth gyhoeddus gan droi ein golygon at ffyrdd o'i graddol ddwyieithogi sy'n parchu'r dinesydd a'r cyflogai fel ei gilydd yn hytrach nag ymdebygu i bentref Potemkin neu adeiladwaith 'seren wen ar gefndir gwyn', gellid cychwyn ar y gwaith o greu 'hanes cyfanfydol negyddol', chwedl Dipesh Chakrabarty. O dan yr amgylchiadau hyn, yn ôl Fernández, ni fydd lleiafrif yn 'cyflwyno ei hunan i weddill y byd yn fersiwn dderbynol a chymeradwy, ond i'r gwrthwyneb, dylem gyflwyno ein hunain i'n gilydd yn rhydd o'r stigma *mewn ffordd ddiymwad sy'n argyhoeddi*, sef gwaith addysgegol fydd yn canolbwyntio arnom ni ein hunain ac yn para am amser hir' (Fernández 2008: t. 368).<sup>45</sup> Bryd hynny, hwyrach, bydd yr anhwylder ynghylch y Gymraeg hefyd wedi mynd yn llai.

## Cyfeiriadau

- Alexander, J. (2020), 'Reaction in Politics', *Journal of the Philosophy of History*, 14, 3–26.
- Allan, J. (2018), 'Transgressive Cymreictod as Scripted Bilingualism', *Arbeiten aus Anglistik und Amerikanistik*, 43 (1), 27–44.
- Andrews, T. (2015), 'Cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol cyfieithu yn y Gymru gyfoes', yn Prys, D., a Trefor, R. (goln), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu* (Caerfyrddin: y Coleg Cymraeg Cenedlaethol), <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/ysgrifau-a-chanllawiau-cyfieithu-delyth-prys-a-robot-trefor-goln>>, tt. 1–20 [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Arman, L., a Cooper, S. (2020), 'Beth yw Ieithyddiaeth?', yn Cooper, S., ac Arman, L. (goln), *Cyflwyniad i ieithyddiaeth* (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 18–21, <[https://adnodau.s3.eu-west-2.amazonaws.com/pdfs/Cyflwyniad\\_i\\_ieithyddiaeth.pdf](https://adnodau.s3.eu-west-2.amazonaws.com/pdfs/Cyflwyniad_i_ieithyddiaeth.pdf)> [Cyrchwyd: 26 Tachwedd 2024].
- Arroz Santisteban, X. (2024), *Las consecuencias de la confusa doctrina constitucional sobre el "equilibrio inexcusable" entre las lenguas oficiales: a propósito de la STC 85/2023, de 5 de julio* <<https://eapc-rld.blog.gencat.cat/2024/05/16/las-consecuencias-de-la-confusa-doctrina-constitucional-sobre-el-equilibrio-inexcusable-entre-las-lenguas-oficiales-a-proposito-de-la-stc-85-2023-de-5-de-julio-xabier-arroz-santis/>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Hughes, Marian Beech (2022), 'Golygu a Phrawfddarllen', yn Morse, M., et al (goln), *E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig* (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 46–9. <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/e-lyfrau-cyfieithu>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Bowyer, O., a Dauncey, M. (2024), *Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru): Crynodeb o'r Bil* (Caerdydd: Senedd Cymru), <<https://ymchwil.senedd.cymru/media/wfnnguv/24-22-bil-y-gymraeg-ac-addysg-cymru.pdf>> [Cyrchwyd: 15 Tachwedd 2024].
- Butler, J. et al. (2000), *Contingency, Hegemony, Universality: Contemporary Dialogues on the Left* (London: Verso).

<sup>45</sup> '[U]niversalitzar el punt de vista d'una minoria no consisteix a presentar-se a nosaltres mateixos com a lliures de l'estigma *de forma implícita i persuasiva*, cosa que requereix un treball pedagògic – cap a nosaltres mateixos – de llarga durada. Italeiddio yn y gwreiddiol.

- Carlin, P. (2024), *Political Community in Minority Language Writing: Claiming Difference, Seeking Commonality* (London: Palgrave Macmillan).
- Chakrabarty, D. (2000), *Provincializing Europe: Postcolonial Thought and Historical Difference* (Princeton: Princeton University Press).
- Chakrabarty, D. (2021), *The Climate of History in a Planetary Age* (Chicago: Chicago University Press).
- Cofnod Swyddogol Gwlad y Basg (1997), *EHAA - 1997ko apirilak 17, osteguna* <<https://www.euskadi.eus/bopv2/datos/1997/04/9701956a.pdf>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Cronin, M. (2003), *Translation and Globalization* (London: Routledge).
- Davies, N. (2022), ‘Adnoddau’, yn Morse, M. et al (goln), *E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig* (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 13–18, <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/e-lyfrau-cyfieithu>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Doyle, O. (2018), *The Constitution of Ireland: A Contextual Analysis* (Oxford: Hart Publishing).
- Edlin, D. E. (2007), *Common Law Theory* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Fernández, J. A. (2008), *El malestar en la cultura catalana: la cultura de la normalització 1976–1999* (Barcelona: Empúries).
- Fernández de Lucio, I. (2023), *Las claves de la nueva Ley de Educación* <<https://www.elcorreo.com/sociedad/educacion/claves-futura-ley-educacion-20231003145326-nt.html>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Gannon, F. (2022), ‘Meistroli a Gloywi’, yn Morse, M. et al (goln), *E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig* (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 39–45. <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/e-lyfrau-cyfieithu>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Garcés, M. (2013), *Un mundo común* (Barcelona: Edicions Bellaterra).
- Hatzidaki, A. (2007), ‘The Process of Comprehension from a Psycholinguistic Approach – Implications for Translation’, *Meta – Journal des traducteurs Translators’ Journal*, 52 (1), 13–21.
- Heaton, R. (2014), *Making the law easier for users: the role of statutes*, <<https://www.gov.uk/government/speeches/making-the-law-easier-for-users-the-role-of-statutes--2>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Hincks, Rh. (2007), ‘*Heb fenthycy cymaint a sill ar neb o ieithoedd y byd*’: *Cymysgiaith a Phuryddiaeth, gyda Golwg Neilltuol ar y Gymraeg yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg ac ar Ddechrau'r Ugeinfed Ganrif* (Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth).
- James, E. (2022), ‘Cynnal y safonau: cyfraniad y proffesiwn cyfieithu at wireddu gweledigaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011’, yn Morse, M. et al. (goln), *E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig*, <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/e-lyfrau-cyfieithu>> (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 1–23. [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Jones, M. C. (1998), *Language Obsolescence and Revitalization: Linguistic Change in Two Sociolinguistically Contrasting Welsh Communities* (Oxford: Clarendon Press).
- Jones, M., ‘Wyneb yn Wyneb: Hunaniaethau Llenyddol Cymraeg a Chymreig yn erbyn Cefndir Refferenda 1979 a 1997’, traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012.

- Jones, Rh., a Lewis, H. (2019), *New Geographies of Language Language, Culture and Politics in Wales* (London: Palgrave Macmillan).
- Jones, S. P. (2015), 'Theori ac ymarfer cyfieithu yng Nghymru heddiw', yn Prys, D., a Trefor, R. (goln), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu*, <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/ysgrifau-a-chanllawiau-cyfieithu-delyth-prys-a-robot-trefor-goln>> (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 98–114. [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Lebow, N. (2008), *A Cultural Theory of International Relations* (Cambridge: Cambridge University Press).
- Lederer, M. (2014), *Translation: The Interpretive Model* (Abingdon, Oxford: Routledge).
- Lewis, H. (2017), 'Realising Linguistic Justice: Resources versus Capabilities', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 38 (7), 595–606.
- Lewis, H., a Royles, E. (2022), 'Examining the Political Origins of Language Policies', yn McLeod, W., et al. (goln), *Language, Territory and Policy: A Festschrift for Colin H. Williams* (London: Palgrave Macmillan).
- Listewnik, M., 'Phrasal verbs in Welsh in relation to the Welsh linguistic norm and contact with English', traethawd PhD, Prifysgol Poznań, Poznań, 2018.
- Llywodraeth Cymru (2012), *Iaith Fyw: Iaith Byw*, <<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/strategaeth-y-gymraeg-2012-i-2017-iaith-fyw-iaith-byw.pdf>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Llywodraeth Cymru (2017), *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr*, <<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Llywodraeth Cymru (2021), *Datganiad Ysgrifenedig* <<https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-canllawiau-ar-gategoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Llywodraeth Gwlad y Basg (2020), *El 34% de los jóvenes menores de 25 años de la Comunidad Autónoma de Euskadi tiene el euskera como lengua materna* <<https://www.euskadi.eus/noticia/2020/el-34-de-las-y-los-jovenes-menores-de-25-anos-de-la-comunidad-autonoma-de-euskadi-tiene-el-euskera-como-lengua-materna/web01-ejeduki/es/#:~:text=La%20lengua%20materna%20del%2020,33%20%25%20tiene%20otra%20lengua%20materna>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Llywodraeth Iwerddon (2022), *New Era for Irish language Courses in the Civil Service* <<https://www.gov.ie/en/press-release/05afc-new-era-for-irish-language-courses-in-the-civil-service/>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Mac Giolla Chríost, D. (2016), *The Welsh Language Commissioner in Context: Roles, Methods and Relationships* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Marí, I. (2016), 'Conflicte lingüística i normalització: conceptes vigents per a les polítiques públiques?', *Treballs de Sociolingüística Catalana*, 26, 219–29.
- McLeod, W. et al. (goln) (2022), *Language, Territory and Policy: A Festschrift for Colin H. Williams* (London: Palgrave Macmillan).
- O'Leary, P. (2024), 'Mwy na thwrist diwylliannol', *O'r Pedwar Gwynt*, 24, 25–7.

- Paipais, V. (2022), 'Rengger's Anti-Pelagianism: International Political Theory as Civil Conversation', yn Paipais, V. (gol.), *The Civil Condition in World Politics* (Bristol: Bristol University Press), tt. 1–29.
- Peled, Y. (2017), 'Language and the Limits of Justice', *Journal of Multilingual and Multicultural Development*, 38 (7), 645–57.
- Peng, Y., Huang, H., Li, D. (goln) (2024), *New Advances in Translation Technology: Applications and Pedagogy* (Singapore: Springer).
- Price, A. (2000), 'Robin Llywelyn: Cyfarwydd ac Anghyfarwydd', yn Rowlands, J. (gol.), *Y Sêr yn eu Graddau: Golwg ar Ffurfafen y Nofel Gymraeg Ddiweddar* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 192–212.
- Priddy, S. (2024), *Local Government and Social Care Ombudsman*, <<https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/sn04117/>> [Cyrchwyd: 24 Tachwedd 2024].
- Pym, A. (2014), *Exploring Translation Theories* (London: Routledge).
- Roberts, A. (2022), 'A fo ben bid bont: Rhagair gan Gomisiynydd y Gymraeg', yn Morse, M. et al (goln), *E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig*, <<https://www.porth.ac.uk/en/collection/e-lyfrau-cyfieithu>> (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), t. iv. [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Roberts, W. O. (2022), *Cymru Fydd* (Aberystwyth: O'r Pedwar Gwynt).
- Rockhill, G. (2016), *Interventions in Contemporary Thought: History, Politics, Aesthetics* (Edinburgh: Edinburgh University Press).
- Ross, M. (2007), 'Calquing and Metatypy', *Journal of Language Contact*, 1 (1), 116–43.
- Saugera, V. (2017), *Remade in France: Anglicisms in the Lexicon and Morphology of French* (Oxford: Oxford University Press).
- Screen, B. (2021), *Sylfeini Cyfieithu Testun: Cyflwyniad i Gyfieithu Proffesiynol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Shields, K. (2016), 'Translation and Society in Ireland, 1900–Present', yn Hickey, R. (gol.), *Sociolinguistics in Ireland* (London: Palgrave Macmillan).
- Svenungsson, J. (2022), 'Radical incarnation', *Studia Teologica – Nordic Journal of Theology*, 76 (1), 71–87.
- Urrutia Pujana, L., ac Urrutia Libarona, I. (2024), 'La defensa del euskera en la encrucijada: retos y oportunidades para los derechos lingüísticos en el País Vasco', *Blog Revista de Llengua i Dret*, <<https://eapc-rld.blog.gencat.cat/2024/11/28/la-defensa-del-euskera-en-la-encrucijada-retos-y-oportunitades-para-los-derechos-linguisticos-en-el-pais-vasco-leixuri-urrutia-pujana-inigo-urrutia-libarona>> [Cyrchwyd: 29 Tachwedd 2024].
- Urrutia Libarona, I. (2019), 'Balance de la legislación y la jurisprudencia de Euskadi 1979–2019', *Revista de Llengua i Dret*, 72, 216–42.
- Vila, F. X. (2016), 'Sobre la vigència de la sociolingüística del conflicte i la noció de normalitat lingüística', *Treballs de Sociolingüística Catalana*, 26, 199–217.
- Williams, C. H. (2013), *Minority Language Promotion, Protection and Regulation: The Mask of Piety* (London: Palgrave Macmillan).

- Williams, G., a Morris, D. (2000), *Language Planning and Language Use: Welsh in a Global Age* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Williams, G., a Williams, G. (2016), *Language, Hegemony and the European Union: Re-examining 'Unity in Diversity'* (London: Palgrave Macmillan).
- Williams, H. (2016), *Credoau'r Cymry: Ymddiddanion Dychmygol ac Adlewyrchiadau Athronyddol* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).
- Williams, N. (2003), 'Gwyneth Lewis: Blasphemy, taboo and testing bilingualism', *Poetry Wales*, 38 (3), <<http://poetrywales.co.uk/wp/421/winter-0203-issue-38-3/>> [Cyrchwyd: 06 Mehefin 2024].
- Woolridge, D., 'Proffilio Gwallau: Dadansoddiad o'r gwallau a wneir gan gyfieithwyr Saesneg-Cymraeg', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2015.